

## Crynodeb o raglen ymchwil CASCADE i sgiliau ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol

Ers 2007, mae ymchwilwyr o CASCADE, ynghyd â chydweithwyr o Brifysgolion eraill, wedi bod yn rhan o nifer o astudiaethau sy'n edrych yn fanwl ar sgiliau ymarfer a chyfathrebu ym maes gwaith cymdeithasol. Yr Athro Donald Forrester, cyfarwyddwr CASCADE, sydd wedi arwain y rhan fwyaf o'r rhain.

Roedd dwy o'r astudiaethau hyn, a gynhaliwyd yn 2007, yn edrych ar y ffordd y mae gweithwyr cymdeithasol [yn siarad â rhieni am bryderon ynghylch amddiffyn plant](#). Roedd un ohonynt yn ystyried a oedd [hyfforddiant mewn Cyfweld Ysgogiadol](#) yn gwneud gwahaniaeth. Mewn rhyngweithio efelychiadol â chleient (gydag actor yn chwarae rhan rhiant), roedd gweithwyr yn gyffredinol yn gofyn cwestiynau caeedig ac yn codi pryderon ac anaml y byddent yn arddangos sgiliau gwranddo gweithredol neu'n nodi pethau cadarnhaol. Ni wnaeth yr hyfforddiant mewn Cyfweld Ysgogiadol fawr ddim gwahaniaeth, er bod y gweithwyr eu hunain yn gadarnhaol, gan ddweud ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'w hymarfer. Mewn [astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn 2008](#) canfuwyd bod gweithwyr cymdeithasol yn dueddol o fod yn wrthdrawiadol, a hyd yn oed yn ymosodol ar adegau. Pan oedd gweithwyr yn fwy empathig, roedd llai o wrthwynebiad yn y rhyngweithiadau efelychiadol, ac roedd mwy o wybodaeth yn cael ei datgelu. Mewn [papur damcaniaethol a gyhoeddwyd yn 2012](#) awgrymwyd, er ei bod yn bosibl bod strwythurau cymdeithasol ac anfantais, natur gwaith amddiffyn plant, a gwadu neu leihau pryderon yn gyfrifol am wrthwynebiad y rhieni - mae ymddygiad y gweithiwr yn ffactor achosol pwysig hefyd. Bu'r astudiaethau hyn yn sylfaen ar gyfer astudiaethau diweddarach a oedd yn edrych yn fanylach ar Gyfweld Ysgogiadol, ac yn ystyried a oedd patrymau cyfathrebu tebyg i'w gweld mewn cyfarfodydd ymarfer go iawn, gan ymchwilio i'r gydberthynas rhwng sgiliau cyfathrebu, ymgysylltu a chanlyniadau.

Cyhoeddwyd dwy astudiaeth gennym yn 2016 a oedd yn dechrau ystyried [yr hyn sy'n digwydd mewn trafodaethau](#) goruchwyllo achosion, ac a yw'n bosibl mynd ti mewn modd dibynadwy i [fesur](#) sgiliau cyfathrebu mewn gwaith cymdeithasol. Daeth yr astudiaeth gyntaf i'r casgliad bod trafodaethau goruchwyllo yn aml yn canolbwyntio ar agenda'r goruchwylwr, gan fodloni angen y sefydliad i oruchwyllo ymarfer. Roedd y gweithwyr yn aml, os nad bob amser, yn chwarae rôl gymharol oddefol drwy roi gwybodaeth yn unig, yn hytrach nag ystyried problemau, meddwl drwy benderfyniadau a gwerthuso a chynllunio ymarfer. Prin oedd y dystiolaeth benodol i ddangos bod myfyrio yn digwydd. Yn yr ail astudiaeth, casglwyd bod codwyr annibynnol yn eithaf dibynadwy wrth asesu sgiliau cyfathrebu ym maes gwaith cymdeithasol. Dylai'r astudiaeth hon ein helpu i deimlo'n fwy hyderus ynghylch rhai o'r cydberthnasau a nodwyd rhwng sgiliau ym maes gwaith cymdeithasol, ymgysylltu a chanlyniadau. Yn 2017, gwnaethom hefyd gyhoeddi astudiaeth yn dangos ei bod hefyd yn bosibl mesur [sgiliau myfyrwyr yn ddibynadwy](#), er bod y ddau academydd a oedd yn rhan o'r astudiaeth yn fwy dibynadwy o gymharu â'i gilydd nag oeddent o gymharu â'r addysgwyr ymarfer a oedd hefyd yn rhan o'r astudiaeth.

Yn 2017, gwnaethom gyhoeddi erthygl gysyniadol yn edrych ar [ganlyniadau ym maes gwaith cymdeithasol i blant a theuluoedd](#), a oedd yn gofyn pwy sy'n cael penderfynu pa ganlyniadau sy'n cael eu mesur a sut, ac a yw canolbwyntio ar ganlyniadau yn y pen draw yn

anwybyddu pwysigrwydd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir? Er bod gweithwyr cymdeithasol yn helpu plant a theuluoedd i newid, mae ganddynt rôl bwysig hefyd wrth asesu anghenion a risgiau, a nodi pa deuluoedd y mae angen ymyrraeth arnynt. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â meddwl am ganlyniadau, fod gan weithwyr cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae mewn cymdeithas ryddfrydol, drwy helpu i gydbwysu hawliau a buddiannau'r wladwriaeth, gweithwyr proffesiynol, rhieni a phlant.

Cyhoeddwyd dwy astudiaeth yn 2018. Roedd y cyntaf yn ystyried [sut mae empathi yn swnio](#) yn ymarferol. Er mwyn gwneud hyn, dadansoddwyd 110 o recordiadau sain. Gwelwyd bod lefel uchel o empathi wedi'i nodweddu gan gwestiynau mwy agored a myfyrio, a mwy o chwilfrydedd ynghylch profiadau rhieni a dealltwriaeth well ohonynt, gan gynnwys ymatebion emosiynol y rhieni. Fodd bynnag, daeth yr astudiaeth i'r casgliad hefyd nad oedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn y sampl yn dangos llawer o empathi. Hap-dreial rheoledig o Gyfweld Ysgogiadol oedd yr ail astudiaeth, a oedd yn cynnwys gweithwyr yn cael eu dewis ar hap i gael pecyn o hyfforddiant a goruchwylio, a theuluoedd yn cael eu hatgyfeirio ar hap, naill ai at weithiwr a oedd wedi cael yr hyfforddiant neu at weithiwr na chafodd yr hyfforddiant. Cafodd cyfarfodydd ymarfer dilynol rhwng y gweithwyr a'r rhieni eu recordio a'u dadansoddi ar gyfer sgiliau Cyfweld Ysgogiadol, a chasglwyd data ar y canlyniadau 20 wythnos yn ddiweddarach. Roedd y gweithwyr a gafodd hyfforddiant ar Gyfweld Ysgogiadol yn dangos lefel uwch o sgiliau yn y maes hwn, ond mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i newid. Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y grwpiau o ran y mesurau canlyniadau. Mae prif gasgliad yr astudiaeth hon yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd y pecyn hyfforddiant a goruchwylio yn ddigon i ddylanwadu ar sgiliau ymarfer, sy'n awgrymu, er y gall hyfforddiant fod yn ddefnyddiol mewn llawer o wahanol ffordd, nad yw'n gwneud gwahaniaeth i ymarfer mewn ffordd a fyddai'n amlwg i deuluoedd, yn ôl pob tebyg.

Yn fwy diweddar, yn 2019, gwnaethom gyhoeddi pedair astudiaeth, yn seiliedig ar astudiaethau pellach o Gyfweld Ysgogiadol ym maes gwaith cymdeithasol i blant a theuluoedd, a oedd yn ystyried goruchwyliaeth grŵp. Yn ystod y ddwy astudiaeth yn ymwneud â Chyfweld Ysgogiadol, ystyriwyd 127 o gyfarfodydd ymarfer rhwng gweithwyr a rhieni, gan chwilio am batrymau yn sgiliau'r gweithwyr. Daeth yr astudiaeth gyntaf i'r casgliad y gellid grwpio'r sgiliau yn ôl gofal ac ymgysylltu (neu feithrin cydberthnasau), awdurdod da a chefnogaeth i newid ymddygiad. Roedd gan weithwyr medrus gyfuniad o'r gwahanol sgiliau, yn hytrach na bod ganddynt un sgil yn well na'r lleill. Hynny yw, at ei gilydd, ni welsom fod rhai gweithwyr yn dda o ran meithrin cydberthnasau ond yn wael o ran defnyddio awdurdod, ac i'r gwrthwyneb. Roedd y gweithwyr a oedd yn llai medrus o ran eu sgiliau awdurdod hefyd yn cael trafferthion â'u sgiliau meithrin cydberthnasau. Roedd yr ail astudiaeth ar Gyfweld Ysgogiadol yn ystyried y [gydberthynas rhwng sgiliau a chanlyniadau](#). Roedd sgiliau da o ran meithrin cydberthnasau yn gysylltiedig â lefelau da o ymgysylltu a adroddwyd gan rieni, ac roedd cydberthynas cryfach rhwng sgiliau awdurdod da a chefnogaeth i newid ymddygiad a'r mesurau canlyniadau. Pan fyddai'r gweithwyr yn ymweld â theuluoedd yn amlach, roedd y gydberthynas rhwng sgiliau a chanlyniadau yn gryfach, yn rhannol o ganlyniad i'r lefel uwch o gysyllt, ond hefyd am fod gan y teuluoedd hyn broblemau mwy difrifol. Ar gyfer y ddwy astudiaeth ar oruchwylio, datblygwyd [fframwaith codio](#) ar gyfer goruchwyliaeth grŵp systemig. Rhoddwyd y fframwaith hwn ar waith wedyn wrth [arsylwi ar sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd ymarfer](#) rhwng gweithwyr

a rhieni. Casglwyd yr astudiaethau hyn fod gwaith goruchwylio grŵp sy'n cadw'n agosach at fodel systematig ac sy'n cynnwys clinigydd wedi'i hyfforddi'n systematig, yn gysylltiedig ag ymarfer mwy medrus, gan gynnwys sgiliau meithrin cydberthnasau a sgiliau awdurdod da.

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn wedi gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o sgiliau ymarfer ym maes gwaith cymdeithasol mewn lleoliadau plant a theuluoedd. Mae copi o'r llawlyfr codio sgiliau a ddatblygwyd gennym, yn ogystal â blogiau sy'n trafod agweddau penodol ar y canlyniadau ymchwil yn fanylach ar gael ar y wefan.